Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon 2019-20:** Llywodraeth Cymru

Mawrth 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru

Mawrth 2021

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AS**
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Darren Millar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Angela Burns AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **8**

**2. Digwyddiadau Allweddol i Lywodraeth Cymru 2019-20** .......... **10**

Tywydd Eithafol .......... 10

Paratoadau ar gyfer gadael yr UE .......... 10

Mae Bywydau Du o Bwys .......... 11

Y pandemig .......... 11

**3. Materion allweddol o'r gwaith craffu blaenorol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru** .......... **12**

Rhan 1 – Adrodd ar y canlyniadau ar gyfer yr arian a wariwyd .......... 12

Paratoi cyfrifon a chynnwys .......... 12

Crynodeb o Alldro Adnoddau .......... 13

Adrodd am Berfformiad .......... 13

Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil .......... 13

Cynlluniau Grant Awdurdodau Lleol .......... 15

Rhan 2 – Gweinyddu'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru .......... 17

Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol .......... 17

Rhan 3 – Llywodraethu .......... 17

Papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) .......... 17

Cyrff Hyd Braich .......... 19

**4. Craffu ar Gyfrifon 2019-20** .......... **23**

Rhan 1 – Adrodd ar y canlyniadau ar gyfer yr arian a wariwyd .......... 23

Cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol .......... 23

Barn Archwilio Amodol .......... 26

Crynodeb o Alldro Adnoddau 2019-20 .......... 30

Adroddiadau perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2019-20 .......... 31

Cynlluniau Grant Awdurdodau Lleol ... 34
Rhan 2 – Gweinyddu'r Gwasanaeth Sifil ... 35
Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol ... 35
Pwysau Staffio ... 36
Y Gymraeg ... 39
Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ... 41
Rhan 3 – Llywodraethu ... 41
Papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ... 41
Cymorth Swyddi Cymru ... 42
Twyll ... 45
Cyrff Hyd Braich ... 48

# Rhagair y Cadeirydd

A ninnau yng nghanol pandemig byd-eang, gwnaethom ein gwaith craffu terfynol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru y tymor hwn o'r Senedd. Rydym yn gwerthfawrogi amser swyddogion i ymgysylltu â ni yn ystod y pandemig a'r cymorth y maent wedi'i roi gyda'n gwaith craffu yn ystod yr amser anodd hwn. Rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Parhaol bob amser yn cymryd ein gwaith craffu o ddifrif ac yn rhoi gwerth arno. Rydym hefyd eisiau cydnabod gwaith caled swyddogion ac archwilwyr. O ganlyniad i'w gwaith, cafodd y cyfrifon eu cyflwyno o fewn yr amserlenni diwygiedig yn ystod cyfnod o bwysau digynsail.

Rydym yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif ar ystod eang o feysydd gan gynnwys ei pherfformiad o ran gweithredu o fewn ei chyllideb, ei threfniadau llywodraethu, sut mae'n rheoli ei gweithlu, p'un a fu unrhyw orwario neu danwario, neu yn wir unrhyw wariant anarferol, megis colledion sylweddol.

Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn herio pa mor effeithiol ac effeithlon y mae arian trethdalwyr yn cael ei wario a pha mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant yn y gwaith o baratoi a chyflwyno Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ac nid oedd eleni yn eithriad. Fodd bynnag, mae sawl thema sy'n codi dro ar ôl tro o waith craffu blaenorol yr ydym wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Teimlwn y gallai Llywodraeth Cymru fynd ychydig ymhellach wrth wneud ei hadroddiad ariannol yn fwy hygyrch a thryloyw trwy gyhoeddi ar yr un pryd y dogfennau sydd, ar y cyd â'r Cyfrifon, yn adrodd ar y gweithgarwch yng Nghymru ac yn mynd peth o'r ffordd i gyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Rydym hefyd yn awyddus i weld gwelliannau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar ei pherfformiad trwy nodi ei chyflawniad yn erbyn ei holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei chyfrifon blynyddol.

Heb y darlun llawnach hwn, ni allwn ystyried materion rheolaeth ariannol a llywodraethu yn eu cyfanrwydd.

Gan edrych at y dyfodol, bydd gwaith ein Pwyllgor olynol yn hanfodol wrth werthuso gwariant Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â Covid-19, gan gynnwys asesiad o'r trefniadau a'r prosesau llywodraethu sydd ar waith i atal twyll sy'n peri mwy o risg nag erioed i gamddefnyddio arian cyhoeddus.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad ar alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn a chyn y sesiynau Craffu ar y Cyfrifon. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 2.** Er budd tryloywder, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yn flynyddol ynghylch sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud o ran cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Hoffem weld y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu arni cyn i'r cyfrifon gael eu paratoi. Rydym yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw hyn yn bosibl o fewn cyfyngiadau amser unrhyw newidiadau i'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r gwaith o baratoi'r cyfrifon. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu amserlen wedi'i diweddaru inni ar gyfer cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau 2019-20. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 4.** Yn sgil barn amodol ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru, rydym yn croesawu ystyriaeth y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol o ddehongli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn). Rydym yn argymell bod canlyniadau'r ystyriaethau hyn, gan gynnwys unrhyw ganllawiau newydd, yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ochr yn ochr â manylion gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru a sut y bydd y rhain yn cael eu hymgorffori mewn prosesau ariannol yn y dyfodol. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n esbonio'r amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro, fel yr adroddwyd yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Dylai hyn ddefnyddio iaith glir i egluro gwahanol elfennau'r gyllideb a'r alldro yn eu herbyn. Dylai hefyd egluro goblygiadau tanwariant i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Cymru) a darparu'r gwasanaethau a ddarperir. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 6.** Barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru ddangos esiampl o ran ei dull o adrodd ar berfformiad. Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei pherfformiad yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Hadroddiad Blynyddol. Dylai hyn adlewyrchu arfer gorau o ran cynnwys a chyflwyno'r wybodaeth hon. .................................................. Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn darparu diweddariad am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu'r Dangosyddion ac yn darparu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. .......................................... Tudalen 34

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y papurau a lywiodd ei phenderfyniad i ddod â'r archwiliad allanol o hawliadau grant awdurdodau lleol i ben, ei gwerthusiad o'r peilot gydag Archwilio Cymru a'i hasesiad risg o'r penderfyniad. .................. Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y mae'n cael y sicrwydd gofynnol ynghylch cyllid grant i awdurdodau lleol yn dilyn y penderfyniad i gael gwared ar y gofyniad am archwiliad. Dylai hyn egluro sut y bydd y datganiad blynyddol gan Swyddogion Adran 151 yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'w hardystiad o hawliadau grant unigol.
.............................................................................................................................................. Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Nodwn y gwendidau a nodwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mentrau rheoli'r gweithlu. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymdriniwyd â'r gwendidau hyn. .............................................................. Tudalen 39

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru, ynghyd â chrynodeb priodol o faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd, yn cael eu cyhoeddi fan lleiaf. .................... Tudalen 42

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus werthusiad o'r adolygiad peilot o'r Llyfrgell Genedlaethol a sylwadau ar unrhyw wersi a ddysgwyd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi amserlenni ar gyfer adolygiadau gwerthuso Cyrff Hyd Braich eraill a manylion am sut y defnyddiwyd dull seiliedig ar risg i bennu trefn blaenoriaeth yr adolygiadau hyn. .......................................................................................................... Tudalen 50

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr amserlenni ar gyfer gwerthuso'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'i fod yn derbyn copi o unrhyw adroddiad a chasgliadau.
.............................................................................................................................................. Tudalen 50

# 1. Cyflwyniad

**1.** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifon cyfunol (y cyfrifon), sy'n rhoi darlun manwl o sut mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei chyllid a chyflawni ei rhwymedigaethau statudol.

**2.** Er 2014, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn craffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru. Cyn hynny, heblaw am y broses gosod cyllideb, nid oedd mecanwaith ffurfiol ar gyfer craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith craffu hwn wedi ffurfio rhan bwysig o gylch gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor.

**3.** Llywodraeth Cymru sydd â'r gyllideb fwyaf o bell ffordd o blith y cyrff cyhoeddus y mae'r Pwyllgor yn craffu arnynt, a chymeradwyodd y Senedd y dyraniadau cyllideb i'w Phrif Grwpiau Gwariant (MEGs), sy'n gyfanswm o dros £18 biliwn, ar 15 Ionawr 2019.[1]

**4.** Flwyddyn ar ôl blwyddyn rydym wedi gweithio'n gydsyniol ar ein gwaith craffu ar y cyfrifon gan dynnu sylw at nifer o faterion arwyddocaol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

**5.** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi mynegi'n gyhoeddus ei bod hi'n cymryd ein gwaith craffu o ddifrif, ac mae hi wedi dangos sut yr oedd wedi gwrando ar ein barn ac wedi gweithredu rhai newidiadau mewn ymateb i'n hargymhellion.

**6.** Cyfrifon 2019-20[2] yw'r pedwerydd y mae'r Ysgrifennydd Parhaol presennol, y Fonesig Shan Morgan DCMG, wedi bod yn gyfrifol amdanynt ar ôl dechrau yn ei swydd ym mis Chwefror 2017.

**7.** Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) farn 'wir a theg' amodol ar Gyfrifon 2019-20 a barn reoleidd-dra amodol. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru.

**8.** Eleni, rhannwyd ein gwaith craffu ar y Cyfrifon dros ddwy sesiwn. Roedd y sesiwn gyntaf yn canolbwyntio ar Ddatganiadau Ariannol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u nodi yn rhan tri o'r Cyfrifon, yn ogystal ag adrodd am alldro gwariant yn erbyn cyllideb, colledion a thaliadau arbennig. Yn yr ail sesiwn, craffwyd ar rai

---

[1] Cymeradwyodd y Senedd Gynnig y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2019-20 ar 15 Ionawr 2019. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Senedd y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2019-20 (9 Gorffennaf 2019) a'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2019-20 (3 Mawrth 2020)

[2] Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020)

rhannau eraill o'r Cyfrifon gan gynnwys adrodd ar berfformiad, trefniadau staffio a llywodraethu.

**9.** Am y tro cyntaf, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol Sylwadau ar y Cyfrifon.[3]

[3] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020)

# 2. Digwyddiadau Allweddol i Lywodraeth Cymru 2019-20

**10.** Mae blwyddyn ariannol 2019-20 wedi bod yn llawn digwyddiadau i Lywodraeth Cymru ac roedd pandemig Covid-19 yn flaenllaw yn ystod wythnosau olaf y cyfnod adrodd ariannol. Mae Llywodraeth Cymru, yn y cyflwyniad i'w Chyfrifon 2019-20, yn esbonio sut yr effeithiodd hyn ar ei busnes gyda chyfran fawr o'i hadnoddau yn cael ei hailddyrannu mewn ymateb i'r heriau digynsail a chymhleth.

**11.** Cyn dyfodiad y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymateb i heriau tywydd eithafol, yn benodol llifogydd difrifol mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, a'i pharatoadau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

**12.** Manylir ar rai enghreifftiau o'r pwysau hyn isod er mwyn rhoi cyd-destun ac er mwyn galluogi ein Pwyllgor olynol i fynd ar drywydd rhai o'r materion hyn yn y dyfodol.

## Tywydd Eithafol

**13.** Ar ddiwedd 2019 gwelwyd cynnydd mewn tywydd eithafol wrth i Gymru wynebu canlyniadau stormydd Ciara a Dennis. Cafodd y ddwy storm effaith ddifrifol ar bobl ac eiddo ledled Cymru gyfan. Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chydweithwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaethau Brys, Awdurdodau Lleol a'r GIG, ymateb.

**14.** Effeithiodd y llifogydd ar rai o adeiladau Llywodraeth Cymru a rhoddwyd cynlluniau parhad busnes ar waith i sicrhau y gallai busnes hanfodol barhau.

**15.** Roedd y Cyfrifon Blynyddol yn nodi sut roedd 'Gweithio'n Glyfar' yn galluogi cynnal gweithrediadau busnes, gyda llawer o staff yn gallu gweithio gartref. Daeth i'r amlwg yn fuan fod hwn yn ymarfer ar raddfa gymharol fach ar gyfer y newid enfawr mewn diwylliant ac arferion gwaith a oedd yn ofynnol er mwyn parhau i weithio'n llwyddiannus yn ystod y broses cyfyngiadau symud Covid-19 cychwynnol ym mis Mawrth 2020.

## Paratoadau ar gyfer gadael yr UE

**16.** Trwy gydol 2019-20 roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ei pharodrwydd strategol a gweithredol, gan gynllunio ar gyfer y dyfodol a chyfnod gweithredu'r

broses ymadael. Roedd hyn yn cynnwys rôl yn y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU er mwyn amddiffyn a hyrwyddo buddiannau Cymru, ac ymgysylltu wrth geisio dylanwadu ar drafodaethau masnach Llywodraeth y DU â gweddill y byd.

## Mae Bywydau Du o Bwys

**17.** Cafodd ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys effaith fawr ar draws y byd ym mis Gorffennaf 2020. Nodwn fod yr Ysgrifennydd Parhaol, fel Pennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, wedi anfon neges at bob aelod o staff yn datgan nad oes lle i hiliaeth yn y sefydliad gan fynegi cefnogaeth i gydweithwyr BAME.

## Y pandemig

**18.** Er i'r pandemig ddechrau yn ystod wythnosau olaf blwyddyn ariannol 2019-20, teimlwyd ei effaith pan oedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i'r argyfwng a oedd yn dod i'r amlwg.

**19.** Mae'r Cyfrifon Cyfunol yn nodi sut mae argyfwng Covid-19 wedi helpu i ymgorffori ymhellach y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, trwy ei raglen Profi, Olrhain a Diogelu a'r fenter cysgodi a gafodd eu creu ar y cyd â rhanddeiliaid a chwsmeriaid.

**20.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod, trwy gydol ei hymateb i'r pandemig, wedi defnyddio strwythurau partneriaeth gymdeithasol sydd wedi'u hen sefydlu i helpu i weithio'n effeithiol gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat ac undebau llafur. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod gweithio ar y cyd wedi dod yn bwysicach nag erioed i'r holl wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**21.** Nododd Llywodraeth Cymru hefyd fod y sefyllfa gyllidebol dynn barhaus yn golygu bod ei Gwasanaeth Sifil yn parhau i fod dan bwysau aruthrol a bod blaenoriaethu wedi bod yn hanfodol i reoli a darparu gwasanaethau yn effeithiol o fewn y gyllideb yn ystod argyfwng Covid-19.

**22.** Rydym wedi monitro ymateb Llywodraeth Cymru yn barhaus i Covid-19 gan ganolbwyntio ar brosesau gwariant a llywodraethu. Bydd rôl bwysig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Chweched Senedd graffu ar sut y defnyddiwyd adnoddau ac asesu gwerth am arian, llywodraethu da ac uniondeb yn dilyn y pandemig. Bydd gwersi pwysig i'w dysgu hefyd, a bydd rhai ohonynt yn helpu i lywio newid yn enwedig trwy ffyrdd newydd o weithio a sut y darperir gwasanaethau ar ôl Covid-19.

# 3. Materion allweddol o'r gwaith craffu blaenorol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

## Rhan 1 – Adrodd ar y canlyniadau ar gyfer yr arian a wariwyd

### Paratoi cyfrifon a chynnwys

**23.** Rydym wedi nodi sawl gwaith nad yw Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru (y Cyfrifon) yn cydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) Trysorlys EM. Mae hyn yn ymwneud â'r gofynion ar gyfer adrodd ar berfformiad. Ym mis Hydref 2017 yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2016-17 dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "We comply, in relation to parts 2 and 3 of the report, with the financial reporting manual and the annual employer pension notice, which give a lot of detail about what we have to do. I know there is HMT guidance available on how we handle part 1 of the report, but, in fact, we don't have to follow it specifically as a devolved government."[4]

**24.** Ynghyd â'r Cyfrifon, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi tri adroddiad arall sydd, ym marn yr Ysgrifennydd Parhaol, gyda'i gilydd yn rhoi 'trosolwg cynhwysfawr' o weithgarwch yng Nghymru.[5] Mae hyn yn cynnwys yr Adroddiad ar Alldro a gyflwynir i Bwyllgor Cyllid y Senedd.

**25.** Nodwn hefyd yn ein 'Hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2018-19' y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach wrth egluro ei dull cyffredinol o adrodd a'r cysylltiadau rhwng yr adroddiadau ar y Cyfrifon a'r adroddiadau blynyddol eraill a gynhyrchir ganddi.

**26.** Y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Adroddiad ar Alldro gael ei gyhoeddi'n ffurfiol, yn ogystal â chael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid yr un pryd â chyfrifon cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru neu'n fuan ar ôl hynny.[6] Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno y gallai'r Adroddiad ar Alldro fod yn fwy hygyrch i'r

[4] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2017, paragraff 131

[5] Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 45

[6] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, Argymhelliad 3, tudalen 27

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Nod Llywodraeth Cymru oedd cwblhau'r Adroddiad ar Alldro o fewn 4 wythnos i gymeradwyo Cyfrifon 2019-20. Gosodwyd y Cyfrifon yn y Senedd ar 2 Tachwedd 2020 a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr Adroddiad ar Alldro ar gyfer 2019-20 ar ei gwefan ar 20 Tachwedd 2020.

## Crynodeb o Alldro Adnoddau

**27.** Yn ein Hadroddiad 'Craffu ar Gyfrifon 2018-19'[7] rydym yn argymell bod y Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi mwy o wybodaeth am amrywiannau sylweddol ac yn egluro'r gwahanol fathau o amrywiannau. Nodwyd hefyd y math o wybodaeth am amrywiannau yr hoffem ei gweld yn cael ei gynnwys. Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cynnwys yr esboniadau yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau wedi cael ei adolygu ac y bydd yn cael 'ei wella ar gyfer 2019-20 er mwyn sicrhau bod yr esboniadau'n fwy dealladwy i'r darllenydd.'[8]

## Adrodd am Berfformiad

**28.** Yn ein hadroddiadau craffu ar gyfrifon ers 2015-16, rydym wedi gwneud cyfres o argymhellion ar adroddiadau perfformiad Llywodraeth Cymru. Rydym wedi nodi yn y gorffennol ein bod yn anghytuno â[9] barn yr Ysgrifennydd Parhaol na ddylid cynnwys gwybodaeth am berfformiad o dan amcanion polisi yn y cyfrifon, ar y sail ei fod yn fater i Weinidogion Cymru.[10]

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil

**29.** Yn ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol[11] i adroddiad y Pwyllgor, Craffu ar Gyfrifon 2017-18[12], dywedodd ei bod wedi gofyn i un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol arwain grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori ar ddull addas o baratoi cyfres well a systematig o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddai'r rhain yn ymwneud â pherfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru a meysydd a oedd yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Parhaol yn hytrach na Gweinidogion.

---

[7] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), Argymhelliad 3, tudalen 29

[8] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

[9] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), paragraff 61

[10] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), paragraff 108

[11] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 30 Ebrill 2019

[12] Craffu ar Gyfrifon 2018-19 Llywodraeth Cymru (Mai 2020)

**30.** Mewn diweddariad ysgrifenedig[13], nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi argymell fframwaith yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCiSE).

**31.** Roedd diweddariad yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi bod y gwaith hwn, a oedd yn cael ei arwain gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, yn 'helpu i wella a chynnal perfformiad ac effeithlonrwydd y sefydliad'. Ychwanegodd:

> "Bydd rhai dangosyddion perfformiad allweddol newydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon 2019-2020. Bydd eraill yn cymryd mwy o amser gan y bydd angen casglu a dadansoddi data newydd."[14]

**32.** Yn ein hadroddiad 'Craffu ar Gyfrifon 2018-19'[15], rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrodd ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yng Nghyfrifon 2019-20 ond yn 'siomedig iddi gymryd cyhyd i ddatblygu'r trefniadau hyn.'[16]

**33.** Nodwn hefyd mai prif nod y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yw 'cefnogi Gweinidogion i gyflawni dros Gymru.'[17] Os oedd y dangosyddion hyn yn cael eu llunio ar wahân i flaenoriaethau Llywodraeth y dydd, roedd gwir berygl y gallai greu mwy o gymhlethdod wrth adrodd. Ni waeth pa mor effeithiol ydyw'n weinyddol, byddai risg bod y sefydliad yn methu pe na bai'n llwyddo yn ei brif nod, sef cyflawni rhaglen y llywodraeth. Dyma oedd ein hargymhelliad:

> "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr inni o'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n bwriadu adrodd arnynt ar gyfer 2019-20 i fesur perfformiad gweinyddol y Gwasanaeth Sifil ac amserlen ar gyfer adrodd ar y dangosyddion sy'n weddill."[18]

**34.** Yn ei hymateb[19], derbyniodd yr Ysgrifennydd Parhaol ein hargymhelliad a rhestru, yn Atodiad C o'i hymateb, y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

[13] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 27 Medi 2019, Tudalen 7
[14] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 27 Medi 2019
[15] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru (Mai 2020)
[16] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), paragraff 86
[17] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), paragraff 86
[18] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), Argymhelliad 4, tudalen 30
[19] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

arfaethedig. Roedd y wybodaeth yn nodi'r 'sefyllfa ddiweddaraf' ac yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith yn mynd rhagddo.

## Cynlluniau Grant Awdurdodau Lleol

**35.** Mae ardystio (neu archwilio) hawliadau grantiau yn un ffordd o roi sicrwydd i gyrff sy'n rhoi grantiau bod y cyrff sy'n derbyn y grantiau hynny'n cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod hawl gan y corff i gael cymhorthdal neu grant a gwirio'r modd y mae'n defnyddio'r arian. Bu'n arfer gan Lywodraeth Cymru ers tro i'w gwneud yn ofynnol – yn nhelerau ac amodau llawer o'i grantiau wedi'u neilltuo – i'r Archwilydd Cyffredinol fynd ati'n annibynnol i ardystio (neu archwilio) hawliadau awdurdodau lleol am gyllid grant.

**36.** Nodwyd yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19 fod Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal peilot i adolygu'r sail dros ardystio hawliadau grantiau:

> "Amcan y cynllun peilot oedd ystyried faint o werth fyddai symud i ffwrdd o gynnal profion helaeth ar drafodiadau ariannol, i ystyried pa weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni drwy grantiau a chanolbwyntio wrth archwilio ar ystyried a gyflawnwyd canlyniadau ai peidio."[20]

**37.** Ychwanegodd yn ddiweddarach:

> "Penderfynwyd erbyn hyn na fydd angen gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar ddyfarniadau grantiau i awdurdodau lleol drwy broses o archwiliad ariannol allanol mwyach. O 2019-20, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi eu hymddiriedaeth mewn swyddog â'r awdurdod priodol yn yr awdurdod lleol, sef Swyddog Adran 151 neu Brif Swyddog Cyfrifyddu."[21]

**38.** Yn ein hadroddiad 'Craffu ar Gyfrifon 2018-19', nodwyd ein bod yn dal i bryderu am y 'newidiadau arfaethedig i'r trefniadau presennol ar gyfer ardystio hawliadau grantiau awdurdodau lleol. Bydd hynny'n cael gwared ar y gofyniad am archwiliad allanol, ac yn hytrach bydd yn ofynnol i hawliadau gael eu cymeradwyo gan swyddog awdurdodedig addas'.[22] Nodwyd gennym:

[20] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, (Tachwedd 2020), tudalen 15

[21] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018-19, (Tachwedd 2020), tudalen 15

[22] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), tudalen 35, paragraff 118

"Nid yw'r gofyniad i hawliadau gael eu hawdurdodi gan swyddogion awdurdodedig yn reol newydd ac rydym yn ymwybodol bod y broses ardystio archwiliadau, yn y gorffennol, wedi nodi materion sylweddol yn aml gyda hawliadau grant er bod y prosesau awdurdodi hyn eisoes ar waith cyn yr archwiliad."[23]

**39.** Cawsom ein *synnu* bod Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt yn llwyr, yn ôl pob golwg, o ran cael sicrwydd ynghylch i ba raddau y mae cyllid grant yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan argymell:

"…bod Llywodraeth Cymru yn rhoi esboniad llawnach i'r Pwyllgor o sut a pham y penderfynwyd symud o'r gofyniad bod hawliadau grantiau awdurdodau lleol yn cael eu hardystio'n allanol i ddibynnu bellach ar gymeradwyaeth mewnol yn unig, a pham y mae wedi rhoi'r gorau i'w hymdrechion i gael sicrwydd bod grantiau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd".[24]

**40.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

"Amlygodd y cynllun peilot fod y cyllid eisoes yn cael ei archwilio yn ystod y cylch archwilio blynyddol ar gyfer Llywodraeth Leol. Felly, yn dilyn nifer o drafodaethau ag Archwilio Cymru, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y byddai'r gwaith archwilio sy'n cael ei wneud eisoes, ynghyd â sicrwydd ychwanegol gan swyddog Adran 151 ar ddiwedd y flwyddyn, yn ddigonol".[25]

**41.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod 'pob cynllun grant neilltuedig yn destun telerau ac amodau manwl a gaiff eu monitro gan y rheolwyr grantiau perthnasol'.[26] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y rhain yn galluogi Llywodraeth Cymru i 'adolygu cydymffurfiaeth yn ôl-weithredol, ac adennill yr arian lle bo angen'.[27]

---

[23] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), tudalen 35, paragraff 118

[24] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), Argymhelliad 6, tudalen 36

[25] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

[26] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

[27] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

## Rhan 2 – Gweinyddu'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru

### Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol

**42.** Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol atebolrwydd deuol. Mae'n atebol i Ysgrifennydd y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil – mae'n adrodd i'r swyddog hwn fel Gwas Sifil yn y DU. Mae hi hefyd yn atebol i'r Prif Weinidog ac i Lywodraeth Cymru. Yn ystod ein gwaith craffu y llynedd, codwyd pryderon gennym am y potensial i densiynau neu wrthdaro buddiannau ddeillio o'r atebolrwydd deuol hwn.

**43.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym nad oedd wedi profi unrhyw anawsterau ond gwnaethom argymell, er budd tryloywder, y dylai ddarparu esboniad manwl o'i llinellau atebolrwydd ac unrhyw fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl.[28]

**44.** Wrth ymateb i'n pryderon, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Rwy'n gwerthfawrogi, o'r tu allan, efallai ei bod yn ymddangos fel pe bai posibilrwydd o wrthdaro buddiannau ond, mewn ymarfer, mae'r trefniadau ar gyfer fy nghyfrifoldebau adrodd yn gweithio'n ddi-rwystr ac yn ddidrafferth. Mae Prif Weinidog Cymru, Pennaeth y Gwasanaeth Sifil a minnau yn gwbl glir mai at Brif Weinidog Cymru yn unig yr wyf yn edrych am gyfarwyddyd, o ran fy mlaenoriaethau personol ac o ran blaenoriaethau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Nid yw Pennaeth y Gwasanaeth Sifil wedi ceisio dylanwadu mewn unrhyw ffordd ar y modd y cyflawnaf fy nghyfrifoldebau wrth wasanaethu Llywodraeth Cymru, ac ni fyddai'n ceisio gwneud hynny."[29]

## Rhan 3 – Llywodraethu

### Papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

**45.** Nodwyd yn flaenorol gennym fod agenda a chofnodion cryno cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru ar gael ar-lein ond nid y papurau.[30] Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r gofynion a roddir ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, fel

---

[28] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), tudalen 47

[29] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Hydref 2020

[30] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), tudalen 12, paragraff 20

Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, sy'n gorfod cyhoeddi papurau cyfarfodydd eu byrddau ac is-bwyllgorau.

**46.** Rydym yn gwerthfawrogi y gall rhai elfennau fod yn sensitif neu'n gostus, ond daethom i'r casgliad os gall cyrff cyhoeddus eraill gyhoeddi papurau eu Byrddau, hyd yn oed os yw hynny'n golygu rhywfaint o guddio rhai darnau o wybodaeth sensitif, dylai Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi geisio gwneud yr un peth – neu ei gwneud yn gwbl glir pam nad oedd hynny'n ymarferol. Dyma oedd ein hargymhelliad:

> "…bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o gyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yn hytrach na chyhoeddi agendâu a chofnodion cryno yn unig."[31]

**47.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Parhaol ein hargymhelliad.[32] Er iddi gadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi papurau'r Bwrdd (ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys 'gwybodaeth swyddogol sensitif a manylion personol staff'), ni fyddai hyn yn wir am y rhai ar gyfer ARAC, gan esbonio:

> "…o ystyried natur sensitif llawer o'r papurau a'r angen i gynnig amgylchedd i aelodau allanol lle y gallant herio swyddogion mewn modd agored a gonest, na fyddai'n briodol cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd na phapurau cysylltiedig. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn gyson â Llywodraethau eraill y DU a llawer o gyrff mwy yn y sector cyhoeddus."[33]

**48.** Yn dilyn ein cyfarfod ar 14 Medi 2020, pan wnaethom ystyried gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystod toriad yr haf, gofynnwyd am eglurhad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch pam bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gwneud yr un peth gydag agenda a phapurau ar gyfer ARAC. Dywedwyd wrthym, yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 23 Hydref 2020, y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau cyhoeddi papurau'r Bwrdd nad ydynt yn sensitif nac yn cynnwys manylion personol.[34] O ran yr ARAC, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Nid gyda chyrff iechyd nac awdurdodau lleol, y mae eu pwyllgorau archwilio a risg yn sicr yn ymdrin â materion pwysig, ond lle y byddai llai

[31] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, (Mai 2020), tudalen 25

[32] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

[33] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Gorffennaf 2020

[34] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Hydref 2020

o sensitifrwydd fel arfer ynglŷn â'r materion a dan drafodaeth, y ceir y gymhariaeth fwyaf priodol. Rwyf o'r farn y ceir cymhariaeth well ag adrannau o Lywodraeth y DU ac adrannau llywodraeth eraill, lle y mae ein hymholiadau yn dangos na fyddai'n arfer cyffredinol i bapurau gael eu cyhoeddi. Mae'n bwysig yn fy marn i fod y trefniadau ar gyfer ystyriaethau ARAC yn darparu lle diogel ar gyfer trafodaeth lawn ac agored, ac ar gyfer fy nghynghori i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu. Rwy'n poeni y gallai ansawdd y trafodaethau ddioddef os caiff papurau'r cyfarfodydd eu cyhoeddi".[35]

**49.** Ychwanegodd fod Cadeirydd ARAC wedi cadarnhau ei fod yn 'fodlon rhannu cofnodion y cyfarfod yn gyfrinachol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond na all gytuno i rannu cofnodion a phapurau'n gyhoeddus.'

## Cyrff Hyd Braich

**50.** Wrth ein diweddaru yn flaenorol, crynhodd yr Ysgrifennydd Parhaol y trefniadau newydd ar gyfer perthynas Llywodraeth Cymru â'i chyrff hyd braich.[36] Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu'r Uned Cyrff Cyhoeddus i weithredu fel canolfan ragoriaeth.

**51.** Roedd y trefniadau newydd hefyd yn cynnwys cael gwared ar 'weithdrefnau galw i mewn', sef y gofyniad i Gyrff Hyd Braich gyfeirio at Lywodraeth Cymru i gymeradwyo penderfyniadau penodol. Roedd y trefniadau newydd hefyd yn cynnwys llunio proses adolygu wedi'i theilwra i'w defnyddio gyda'r Cyrff Hyd Braich i:

> "...ddarparu sicrwydd i Weinidogion, y Prif Swyddog Cyfrifyddu ac Arweinwyr y cyrff eu hunain ynghylch a yw ein cyrff yn dal i fod yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n dda ac yn briodol atebol. Bydd y broses adolygu yn gymesur i faint y corff Hyd Braich ac yn hyblyg o ran amseru a dull gweithredu."[37]

**52.** Rydym wedi mynegi pryderon difrifol yn y gorffennol am y newidiadau i'r 'gweithdrefnau galw i mewn' ar gyfer cyrff hyd braich gan nodi:

> "Bydd cael gwared ar y mecanwaith galw i mewn yn lleihau'r cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch camau gweithredu'r cyrff hyd braich. Mae'r

[35] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Hydref 2020
[36] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 25 Medi 2018
[37] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 25 Medi 2018

gofyniad i adrodd ar benderfyniadau newydd, cynhennus neu adleisiol yn amddiffyn Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich. Nid yw'r Pwyllgor yn glir pam y gwnaed y penderfyniad hwn ar hyn o bryd."[38]

**53.** Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ein diweddaru gan nodi bod y trefniadau newydd wedi'u 'mireinio ymhellach gyda gweithdrefn newydd ar waith pe bai corff cyhoeddus yn dewis diystyru cyngor Llywodraeth Cymru ar fater sy'n gofyn am gael ei hysbysu ymlaen llaw'.[39]

**54.** Ar 21 Hydref 2019, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor:

> "…for me, the focus has got to be on having the right chair and chief exec who are both competent and trained, to have a capable and well-functioning board overall, a good audit and risk committee, and a properly trained accounting officer who is applying effective financial controls, and that we also have the right level of scrutiny through internal and external audit, and also, obviously, through Assembly committees. Obviously, we want to build an effective relationship with the Welsh Government as part of that."[40]

**55.** Ychwanegodd:

> "…we're certainly not casting them adrift at all. We want to work more effectively with them and use their and our time better."[41]

**56.** Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y broses adolygu deilwredig o ystyried ei nod o roi sicrwydd i Weinidogion, y Prif Swyddog Cyfrifyddu a chyrff Hyd Braich ynghylch a ydynt 'yn dal i fod yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n dda ac yn briodol atebol'.[42]

**57.** Cynghorodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "That review will focus on the overall purpose and role of the ALB [Arm's Length Body], its capacity to deliver the control and governance arrangements that are in place, how the board is functioning, how decision-making structures are functioning, the relationship with the

[38] Craffu ar Gyfrifon 2017-18, Llywodraeth Cymru (Mawrth 2019), paragraff 165
[39] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 16 Gorffennaf 2019
[40] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 176
[41] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 204
[42] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 25 Medi 2018

> Welsh Government and, in particular, with the sponsor team; also, issues like value for money, whether there's scope to make savings, what is the digital readiness of that ALB… All of that will be done in partnership—a mix of Welsh Government officials, arm's-length bodies and independent members as well."[43]

**58.** Byddai proses herio yn cael ei chynnal ar ddiwedd y broses, a fyddai'n cael ei chyd-gadeirio gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi nodi mai'r flaenoriaeth ar gyfer yr adolygiadau teilwredig fyddai asesu'r:

> ".. graddau y mae Cyrff yn gwario'r adnoddau a ddyrennir iddynt yn effeithiol ac yn effeithlon, gan ystyried y canlyniadau y gall pob corff eu cyflawni gyda'r adnoddau a ddyrennir iddynt gan Weinidogion."[44]

**59.** Clywsom ym mis Hydref 2019 fod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gwirfoddoli ar gyfer y peilot cyntaf, a bydd y panel her cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2020.[45] Byddai'r cynllun peilot yn cael ei ddilyn gan raglen lawn o adolygiadau teilwredig.

**60.** Cyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad teilwredig o'r Llyfrgell Genedlaethol ym mis Mawrth 2020. Nid oedd yr Adroddiad, 'Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru' yn nodi casgliad cyffredinol, ond gwnaeth 34 o argymhellion mewn pedwar maes: Perthynas â'r Llywodraeth; Bwrdd a Llywodraethu; Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd; ac Ymgysylltu Allanol.[46]

**61.** Croesawodd Llywydd interim y Llyfrgell Genedlaethol yr argymhellion, gan ddweud:

> "Mae'n cynnwys dadansoddiad manwl a thrylwyr o'r sefyllfa bresennol a'r materion y mae'r Llyfrgell yn eu hwynebu. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r argymhellion ac wrth i ni ddiogelu dyfodol y Llyfrgell."[47]

---

[43] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 179

[44] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 27 Awst 2020

[45] Cofnod y Trafodion, 21 Hydref 2019, paragraff 180

[46] Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Mawrth 2020 Atodiad 4

[47] Datganiad i'r wasg, Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, 30 Medi 2020

**62.** Rhannodd Prif Weithredwr y Llyfrgell ymateb y sefydliad i'r adolygiad, gan ddweud wrth Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd:

> "…roeddem ni yn gyffredinol hapus â'r ffordd ddaru yr adolygiad teilwredig cael ei gynnal. Datblygwyd perthynas dda iawn rhyngom ni â'r panelwyr, a'r uned cyrff cyhoeddus hefyd. Mi gymerodd hi ychydig bach yn rhy hir, mae'n bosib, o'r cychwyn i'r diwedd, ond, ar wahân i hynny, mi gawsom ni nifer o gyfarfodydd adeiladol iawn."[48]

**63.** Nododd y Prif Weithredwr hefyd yr amserlen ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adroddiad, gan nodi y byddant yn cael sylw erbyn mis Ebrill nesaf [2021], er bod yr argymhellion pwysicaf yn gwbl ddibynnol ar lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru.[49]

[48] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2020, paragraff 8

[49] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cofnod y Trafodion, 12 Tachwedd 2020, paragraff 11

# 4. Craffu ar Gyfrifon 2019-20

## Rhan 1 – Adrodd ar y canlyniadau ar gyfer yr arian a wariwyd

### Cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol

**64.** Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau diwygiedig[50] ar 20 Mai 2020 o ystyried sefyllfa ddigynsail Covid-19 a'r effaith y mae wedi'i chael ar endidau'r llywodraeth. Roedd yn nodi isafswm gofynion adrodd diwygiedig ar gyfer 2019-20 y mae'n rhaid i gyrff y sector cyhoeddus wneud i gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM).

**65.** Roedd y canllawiau hyn yn nodi nad oedd unrhyw newidiadau i fformat a chynnwys gofynnol y datganiadau ariannol (a nodir yn rhan tri o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon). Fodd bynnag, roedd yn nodi gostyngiad yn y gofynion ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad yn rhan un (ac i raddau llai i'r Adroddiad Atebolrwydd yn rhan dau).

**66.** Ar 14 Ebrill 2020, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Archwilydd Cyffredinol atom ar y cyd gydag amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cyfrifon ar gyfer 2019-20. Esboniodd y llythyr y byddai cymeradwyo Cyfrifon 2019-20 Llywodraeth Cymru yn cael ei symud i wythnos 26 Hydref 2020.[51]

**67.** Roedd hyn yn cyfateb i oedi o 9 wythnos o'i gymharu â'r amserlen flaenorol. Roedd yr oedi yn caniatáu 4 wythnos ychwanegol i gyrff iechyd, pythefnos arall ar gyfer archwiliad wrth gefn ar gyfer llithriad pellach yn y naill gorff iechyd, y Cyrff Hyd Braich neu'r archwiliad.

**68.** Ar 6 Gorffennaf 2020, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym mai'r prif feysydd i'w hepgor o'r Cyfrifon ar gyfer 2019-20 fyddai'r astudiaeth achos a'r adroddiad rheoli grantiau.[52] Byddai adroddiad ar wahân yn cael ei baratoi ar gyfer yr olaf.

**69.** Cafodd y Cyfrifon eu cymeradwyo yn unol â'r amserlen hon ac fe'u hardystiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 30 Hydref 2020. O ran eu cynnwys, mae'r Cyfrifon yn nodi:

---

[50] Adendwm Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2019-20, 20 Mai 2020

[51] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 14 Ebrill 2020

[52] Cofnod y Trafodion, 6 Gorffennaf 2020, paragraff 172

> "Yn unol ag arweiniad gan Drysorlys EM, oherwydd yr argyfwng byd-eang presennol, mae Rhan Un o'r adroddiad wedi'i chwtogi eleni er mwyn caniatáu inni ganolbwyntio ein hadnoddau ar yr ymateb i COVID-19."[53]

**70.** Gwnaethom gwestiynu ar ba sail y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch pryd i ddilyn y FReM.

**71.** Clywsom fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych yn flynyddol ar y gofynion perfformiad a nodir yn y FReM ac yn ystyried yr hyn sy'n briodol i Gymru. Er enghraifft, roedd y gofynion adrodd gofynnol diwygiedig a argymhellwyd yn cynnwys dileu data nad yw'n archwiliadwy, megis yr Adroddiad Cynaliadwyedd, gwybodaeth am reoli grantiau ac astudiaethau achos. Fodd bynnag, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod adrodd ar y materion hyn yn parhau i fod yn bwysig, gan gydnabod bod gwybodaeth am grantiau yn hynod bwysig at ddibenion craffu. Byddai'r wybodaeth hon fel arfer yn cael ei chynnwys yn y Cyfrifon ond byddai'n cael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2021.[54] Ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, nid oedd adroddiad Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau wedi'i gyhoeddi.

**72.** Nodwn y dull hyblyg a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o ran pryd y mae'n penderfynu cydymffurfio â'r gofynion yn y FReM ar gyfer rhan un o'r cyfrifon. Mae'r hyblygrwydd hwn yn fuddiol o ran galluogi Llywodraeth Cymru i addasu ei dull yn flynyddol, gan ystyried amryw ffactorau. Er bod hyn yn caniatáu i gynnwys materion sy'n benodol i Gymru, mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn dod ag anghysondeb ac yn darparu dewis i 'optio allan' sy'n golygu nad oes yn rhaid i Lywodraeth Cymru fodloni'r holl ofynion o reidrwydd. Mae yna ddiffyg eglurder hefyd ynglŷn â sut mae penderfyniadau i gydymffurfio yn cael eu gwneud a sut mae hyblygrwydd yn cael ei estyn i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r FReM.

**73.** Mae'r adroddiad perfformiad yn elfen allweddol o'r cyfrifon, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer y datganiadau ariannol, a gwybodaeth ychwanegol iddynt (a nodir yn rhan tri o'r cyfrifon). Dylai alluogi'r cyhoedd a ninnau i gyfateb yr hyn a gyflwynwyd ar gyfer arian y trethdalwyr a wariwyd. Wrth nodi rhai gofynion gorfodol i hwyluso cymhariaeth, mae gofynion FReM ar gyfer rhan un o'r cyfrifon yn rhoi hyblygrwydd i gyrff y sector cyhoeddus adrodd eu straeon eu hunain am eu gweithgareddau a'u canlyniadau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'n bwysig

---

[53] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 2

[54] Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2020, paragraff 13

bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn cadw i fyny â datblygiadau mewn adrodd ar berfformiad, nid yn unig ei bod yn croesawu arfer gorau ond ei bod hefyd yn gosod y safon ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

**74.** Yn sgil y pandemig, nodwn yr hyblygrwydd a roddwyd gan ofynion adrodd diwygiedig y FReM. Fodd bynnag, o ystyried bod swyddogion Llywodraeth Cymru eu hunain yn teimlo bod adrodd ar rai o'r materion hyn yn parhau i fod yn bwysig at ddibenion craffu, mae'n anffodus y bu oedi wrth gyhoeddi ei adroddiad Rheoli Grantiau.

**75.** Rydym yn croesawu cyhoeddi Adroddiad ar Alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Er budd tryloywder ac i hwyluso'r gwaith craffu, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i gyhoeddi'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn, cyn ein sesiynau tystiolaeth.

**76.** Rydym hefyd yn croesawu bod Llywodraeth Cymru eleni, am y tro cyntaf, wedi rhestru ei holl ddogfennau adrodd blynyddol mewn tabl yn ei Chyfrifon.[55] Er bod hyn yn gwneud y cysylltiadau rhwng y dogfennau ychydig yn gliriach, mae peidio â chyhoeddi'r dogfennau hyn ar yr un pryd yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y wybodaeth hon.

**77.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn flaenorol at nifer o rwystrau ymarferol i gyhoeddi adroddiadau ar yr un pryd, fel pryd y bydd y data ar gael ar gyfer llunio'r adroddiadau, a'r ffaith mai dim ond pan fydd y cyfrifon wedi cael eu harchwilio a'u cymeradwyo y gellir creu rhai eraill.

**Argymhelliad 1.** Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad ar alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn a chyn y sesiynau Craffu ar y Cyfrifon.

**Argymhelliad 2.** Er budd tryloywder, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yn flynyddol ynghylch sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud o ran cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Hoffem weld y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu arni cyn i'r cyfrifon gael eu paratoi. Rydym yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw hyn yn bosibl o fewn

[55] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020, (Tachwedd 2020), tudalen 20

cyfyngiadau amser unrhyw newidiadau i'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r gwaith o baratoi'r cyfrifon.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu amserlen wedi'i diweddaru inni ar gyfer cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau 2019-20.[56]

## Barn Archwilio Amodol

**78.** Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) wedi rhoi barn archwilio 'gwir a theg' amodol ar y Cyfrifon gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cost rhai o'i hymyriadau brys i ymateb i'r Coronafeirws yn ei Chyfrifon ar gyfer 2019-20. Mae hyn wedi codi oherwydd anghytundeb â Llywodraeth Cymru ar fater cyfrifyddu technegol cymhleth.

**79.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol y sail ar gyfer ei farn 'wir a theg' amodol:

> "Yn fy marn i, fe wnaeth y cyhoeddiadau a'r camau a gymerwyd cyn 31 Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, er mwyn sicrhau bod arian parod yn cael ei dalu i fusnesau cyn gynted â phosibl, greu rhwymedigaeth ddeongliadol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol, a dylai'r costau cysylltiedig fod wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20."[57]

**80.** Mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i gost 'rhwymedigaethau deongliadol' gael ei chynnwys yn y cyfrifon cyn gynted ag y byddant yn codi.

**81.** Gan fod gwerth y costau a hepgorwyd yn berthnasol (£739 miliwn), barnodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn effeithio ar ei farn 'wir a theg' amodol ond dim ond o ran cyfrifo'r grantiau penodol hynny. Ym mhob ffordd arall, daeth i'r casgliad bod y Cyfrifon yn darparu safbwynt 'gwir a theg'.

**82.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi cynnal asesiad yn ôl safonau cyfrifyddu (sef Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn) (y Safon Gyfrifyddu) i

---

[56] Ar adeg cytuno'r adroddiad hwn, sef 22 Chwefror 2021, nid oedd Adroddiad Blynyddol Rheoli Grantiau 2019-20 wedi'i gyhoeddi.

[57] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 99

benderfynu a ddylid cynnwys rhwymedigaethau dros y cynlluniau grant hyn yn ei Chyfrifon ar gyfer 2019-20.[58]

**83.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai ei dehongliad o'r Safon Gyfrifyddu oedd 'nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na deongliadol ychwanegol ar 31 Mawrth 2020'.[59]

**84.** I rai cyrff, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi 'barn am reoleidd-dra'. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol iddo ddod i gasgliad mewn dau faes. Yn gyntaf, a yw'r gwariant a'r incwm yn y cyfrifon wedi'u defnyddio at y dibenion a nodwyd gan y Senedd, sy'n cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru. Yn ail, a yw'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y cyfrifon yn 'cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli'. Roedd Cyfrifon Llywodraeth Cymru yn dangos tanwariant net yn erbyn cyllideb o tua £436 miliwn. Felly, pe bai Llywodraeth Cymru wedi newid y cyfrifon yn unol â chasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol, byddai wedi mynd y tu hwnt i'w therfyn gwariant net awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Senedd ar gyfer 2019-20 gan £303 miliwn. Gelwir hyn yn 'defnyddio gormod o adnoddau'. Mae hyn yn ei gwneud yn afreolaidd (neu'n anghymeradwy) ac felly rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn amodol am reoleidd-dra.

**85.** Yn eu llythyr ar y cyd at y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2020, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Parhaol yn nodi'r 'gwahaniaeth barn' yn eu dehongliad priodol o'r Safon Gyfrifyddu, gan nodi:

> "Mae ein timau wedi cyfarfod droeon i geisio datrys ein gwahaniaeth barn, ond yn anffodus mae hwn yn un o'r achlysuron prin hynny lle mae Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn anghytuno'n sylfaenol ar fater cyfrifyddu technegol cymhleth."[60]

**86.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd yn ei thystiolaeth, yn y cyflwyniad i'r Cyfrifon, fod Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei gasgliad bod y driniaeth gyfrifyddu a gymhwyswyd gan swyddogion yn briodol ac yn gyson â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer trin grantiau.[61]

---

[58] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 75

[59] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 75

[60] Llythyr ar y Cyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, 6 Tachwedd 2020

[61] Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2020, paragraff 31

**87.** Mae peth tebygrwydd rhwng rhai cynlluniau ar gyfer cymorth busnes a ddarperir gan Lywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig. Daeth pedwar sefydliad archwilio'r DU i farn gyson ar y driniaeth gyfrifyddu briodol o dan IAS 37, sef bod rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer y cynlluniau hyn. Roedd yr Adran Busnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Llywodraeth yr Alban ac Invest NI i gyd yn cyfrif am y grantiau yn unol â'r safbwynt hwnnw. O ganlyniad, ni chafodd yr un amod 'gwir a theg' ar eu cyfrifon.

**88.** Rhoddodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol farn 'wir a theg' ddiamod ar Gyfrifon BEIS ar gyfer 2019-20.[62] Fodd bynnag, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra ers i BEIS ragori ar ei gyllideb gymeradwy ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Adran yn nodi bod hyn oherwydd cydnabod grantiau cymorth busnes Covid-19 yn 2019-20.[63]

**89.** O ran Gogledd Iwerddon, roedd Cyfrifon 2019-20 Invest NI[64] yn cofnodi amcangyfrif o gostau'r Cynllun Grant Busnesau Bach. Rhoddodd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon farn 'wir a theg' ddiamod ar y cyfrifon.

**90.** Nid oedd Cyfrifon 2019-20 Llywodraeth yr Alban ar gael ar adeg ein sesiynau tystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe'u cyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2020, gydag Archwilydd Cyffredinol yr Alban yn darparu barn archwilio 'wir a theg' ddiamod gan fod y Cyfrifon yn cynnwys costau'r cynlluniau.

**91.** Rôl y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) yw sicrhau bod adroddiadau ariannol y llywodraeth yn cwrdd â'r safonau adrodd ariannol gorau posibl trwy ddilyn Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP) cyn belled ag y bo modd.[65] Mae'n ofynnol i Drysorlys EM gyhoeddi yn y FReM y newidiadau i ganllawiau cyfrifyddu y cytunodd yr FRAB arnynt. Nid rôl FRAB yw cymrodeddu ar ddyfarniadau cyfrifyddu unigol.

**92.** Ar 26 Tachwedd 2020, darparodd Llywodraeth Cymru gopi o'r papur a baratowyd gan Drysorlys EM i'w ystyried gan yr FRAB yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2020. Darparwyd y ddogfen hon i ni ar sail gyfyngedig ac roeddem yn fodlon â'r materion y mae Trysorlys EM wedi gofyn i'r FRAB eu hystyried.

**93.** Wrth ddarparu trosolwg o'r mater yng Nghymru, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai safbwynt Llywodraeth Cymru oedd nad oedd angen darparu ar gyfer

---

[62] Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019-20

[63] Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019-20

[64] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Invest Gogledd Iwerddon 2019-20

[65] Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB)

atebolrwydd yng Nghyfrifon 2019-20, oherwydd nad oedd y canllawiau terfynol ar gyfer ceisiadau i'r cynlluniau cymorth wedi eu cyhoeddi tan 22 Ebrill 2020, a oedd yn perthyn i'r flwyddyn ariannol nesaf.[66]

**94.** Wedi dweud hynny, gwnaethom nodi bod rhai taliadau wedi'u gwneud mewn gwirionedd yn 2019-20[67] ac nad oedd yn wir bod y cynllun cyfan wedi'i ohirio tan y canllawiau terfynol, yr ydym ar ddeall nad oeddent yn wahanol iawn i'r canllawiau drafft.

**95.** Fe wnaethom gwestiynu ar ba bwynt y mae ymrwymiad gan y Gweinidogion i wario swm o arian yn dod yn ymrwymiad diriaethol i wario. Esboniodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru:

> "…an announcement by the Minister would not normally require us to make a provision within the accounts, or indeed accrue for any costs…we feel that until an organisation has actually made an application and meets the eligibility criteria as laid out in the guidance then we would not provide for that on this grant scheme or on any other grant scheme."[68]

**96.** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn nodi yn y Cyfrifon:

> "Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anghytuno ag asesiad IAS 37 Llywodraeth Cymru […] Mae'n anarferol bod cymaint o wahaniaeth barn rhwng swyddogion a'r awdurdodau archwilio perthnasol ac, felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol ystyried y mater a chyhoeddi canllawiau clir."[69]

**97.** Gwnaethom ystyried pa gamau, os o gwbl, y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn dilyn barn reoleidd-dra amodol yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfrifon. Dywed Rheol Sefydlog 20.37A y Senedd:

> "Os bydd cyfrifon archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cofnodi bod gormod o adnoddau wedi'u defnyddio o gymharu â'r symiau a awdurdodwyd neu y barnwyd o dan y Ddeddf eu bod wedi'u hawdurdodi gan benderfyniadau cyllideb y

[66] Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2020, paragraff 26

[67] **Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru**, (Tachwedd 2020) paragraff 21

[68] Cofnod y Trafodion, 23 Tachwedd 2020, paragraff 33

[69] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 75

> Senedd, caiff un o Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig cyllideb atodol yn gofyn am awdurdodiad ôl-weithredol ar gyfer gormodeddau a gofnodwyd yng nghyfrifon archwiliedig Llywodraeth Cymru."

**98.** Adroddir am achosion o dorri'r gyllideb yn y 'Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru' yr Archwilydd Cyffredinol (y 'farn archwilio'). Pe bai hyn yn cael ei ystyried, byddai'r gofyniad yn y Rheol Sefydlog yn cael ei fodloni a byddai hyn yn awgrymu cyllideb atodol i awdurdodi'r gwariant gormodol y gallai fod ei angen yn ôl-weithredol.

**99.** Gwnaethom ystyried a ellid dadlau y dylai 'cyfrifon archwiliedig' gynnwys barn yr archwilydd (p'un a yw'n amodol neu'n ddiamod) gan na fyddai'r cyfrifon yn cael eu hystyried fel rhai archwiliedig heb farn. Fodd bynnag, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn diffinio'r term 'cyfrifon archwiliedig'.

**100.** Mae problem o hyd ynghylch a ddylai Rheol Sefydlog 20.37A fod yn fwy eglur o ran y diffiniad o 'gyfrifon archwiliedig'.

**Argymhelliad 4.** Yn sgil barn amodol ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru, rydym yn croesawu ystyriaeth y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol o ddehongli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn). Rydym yn argymell bod canlyniadau'r ystyriaethau hyn, gan gynnwys unrhyw ganllawiau newydd, yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ochr yn ochr â manylion gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru a sut y bydd y rhain yn cael eu hymgorffori mewn prosesau ariannol yn y dyfodol.

## Crynodeb o Alldro Adnoddau 2019-20

**101.** Mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau (SORO) yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi nodi tanwariant o £436m (neu 2.4 y cant) yn erbyn cyfanswm ei gofyniad adnoddau a chyfalaf o £18.5bn ar gyfer 2019-20.[70]

**102.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod nifer o newidiadau i Adroddiad SORO wedi'u gwneud mewn ymateb i bryderon blaenorol y Pwyllgor ond byddai'n croesawu adborth ar fwy o wybodaeth y gellid ei chynnwys i helpu i ddeall y cyfrifon.

[70] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020, (Tachwedd 2020), tudalen 103

**103.** Mae'r Cyfrifon yn nodi esboniad o'r amrywiannau[71] ond er bod y rhain yn darparu mwy o wybodaeth nag a gynhwyswyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r esboniadau i gyd yn glir.

**104.** Mae rhywfaint o'r sylwadau yn ddryslyd ac mae'r esboniadau'n cynnwys gwybodaeth nad yw'n esbonio'r amrywiant. Er enghraifft, mae'r adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi 'mae'r tanwariant yn cynnwys diffyg net o £88.7m yn y GIG yng Nghymru'. Er bod y diffyg hwn wedi'i gynnwys yn y ffigurau alldro (gan fod cyrff y GIG o fewn cyllideb a ffin grŵp Llywodraeth Cymru), nid yw'n egluro pam yr adroddir am danwariant.

**105.** Gallai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach wrth egluro pa danwariant sy'n gysylltiedig â chyllidebau y gallai eu defnyddio at ddibenion eraill a'r rhai na allai eu defnyddio i wneud hynny. Nid yw ei esboniadau yn egluro goblygiad y tanwariant cyffredinol i Gymru, cadw cronfeydd nas gwariwyd yng Nghymru i'w defnyddio yn y dyfodol, a'r effaith ar gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

**106.** Nid yw'r Cyfrifon yn nodi'r balans yn erbyn Cronfa Wrth Gefn Cymru, a ddefnyddir i 'helpu i reoli amrywiadau mewn refeniw o drethi ac mae'r Gronfa hefyd yn cynnig gallu cyfyngedig i gario tanwariant drosodd rhwng blynyddoedd' er ein bod yn nodi bod hyn wedi'i gynnwys yn Adroddiad ar Alldro Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n esbonio'r amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro, fel yr adroddwyd yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Dylai hyn ddefnyddio iaith glir i egluro gwahanol elfennau'r gyllideb a'r alldro yn eu herbyn. Dylai hefyd egluro goblygiadau tanwariant i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Cymru) a darparu'r gwasanaethau a ddarperir.

## Adroddiadau perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2019-20

**107.** Yn y Cyfrifon ar gyfer 2019-20, dywed yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Rwyf wedi cael fy annog gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddatblygu cyfres fwy cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn fy llywio a'm cefnogi i a'm huwch-gydweithwyr wrth arwain gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu'r

[71] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020, (Tachwedd 2020), tudalen 103

> adborth hwn am fy mod innau hefyd yn credu y bydd cyfres ddiwygiedig o ddangosyddion o gryn gymorth imi."[72]

**108.** Mae'r Cyfrifon yn nodi[73] gwybodaeth am ddatblygiad y Fframwaith Perfformiad a manylion am sut mae'r fframwaith yn gweithredu o fewn cylch blynyddol.[74] Y bwriad yw cyflwyno'r fframwaith fesul tipyn:

> "Bydd angen i'r broses o gyflwyno adroddiadau ar y fframwaith fod yn bragmataidd a bydd angen iddi ysgogi gwelliannau yn y sefydliad. Bydd y fframwaith perfformiad yn cael ei gynnal ar sail cylch blynyddol a fydd yn adrodd i'r Bwrdd mewn dwy sesiwn; un yn canolbwyntio ar y themâu 'priodoleddau' ym mis Gorffennaf ac ail sesiwn ar themâu 'swyddogaethau' ym mis Ionawr/Chwefror."[75]

**109.** Fodd bynnag, nid yw'r Cyfrifon yn cynnwys unrhyw fanylion am y dangosyddion newydd, y targedau penodol na'r perfformiad yn eu herbyn. Nid ydynt ychwaith yn cadarnhau y bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Nid yw'r diagram cylch blynyddol, sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon, yn cyfeirio at adrodd ar berfformiad yn y cyfrifon blynyddol.

**110.** Wrth egluro pam nad oedd y Cyfrifon yn cynnwys rhai o'r dangosyddion perfformiad newydd dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "I decided that is wasn't the time to include full details of the system in the published accounts, partly because this was very much an internal tool to help the Welsh Government improve its performance. Much of the information that we draw on to do that is actually sensitive, staff related information."[76]

**111.** Ychwanegodd:

> "These [KPIs] were never designed as an external-facing set of indicators and frameworks. It's about how we, within the Welsh Government, hold ourselves to account for the performance of the organisation. The annual accounts are obviously a public document.

---

[72] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020, (Tachwedd 2020), tudalen 54

[73] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 8

[74] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 11

[75] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 10

[76] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 9

> That's very different from having a discussion or presenting a report to the PAC about how the system is operating."[77]

**112.** Mae'n ymddangos nad oes bwriad bellach i gynnwys unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol newydd yn y cyfrifon o ystyried barn yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Dangosyddion yn offeryn mewnol ar gyfer asesu sut mae Llywodraeth Cymru yn perfformio.[78]

**113.** Gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hystyriaethau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, mae'n ddealladwy bod y gwaith ar gwblhau'r Dangosyddion wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu mecanweithiau casglu data cysylltiedig. Ychwanegodd y byddai'n croesawu ein barn ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r hyn y dylent ei gynnwys[79]. Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i wneud sylwadau ond, o ystyried yr amseriad tebygol, gallai hyn fod yn rhywbeth i'n Pwyllgor olynol ei gyflawni yn y Chweched Senedd. Byddwn yn cynnwys argymhelliad cysylltiedig yn ein hadroddiad gwaddol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu diweddariad gan yr Ysgrifennydd Parhaol am unrhyw gynnydd a wnaed ers iddi roi tystiolaeth i ni, ynghyd â syniad o'i hamserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

**114.** Mae 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn dweud bod rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus 'ddarparu gwybodaeth amserol am ei wasanaethau, ei safonau a'i berfformiad'.[80] Fel y nodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad hwn, rydym hefyd yn nodi bod y FReM yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys adroddiad perfformiad yn Rhan un o'r cyfrifon. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y mesurau perfformiad allweddol a sut mae'r sefydliad yn gwirio perfformiad yn erbyn y mesurau hynny, yn ogystal â dadansoddiad manylach o'i berfformiad.

**115.** Ar ôl derbyn ein hargymhellion cysylltiedig yn flaenorol a chadarnhau y byddai'r Dangosyddion yn cael eu hadrodd, rydym yn parhau i fod yn siomedig na allai'r Ysgrifennydd Parhaol roi ymrwymiad cliriach i adrodd ar berfformiad yn erbyn y Dangosyddion yn y cyfrifon. Mae cyflwyno adroddiadau perfformiad clir a hygyrch yn ffactor allweddol wrth ddangos atebolrwydd. Mae hyn wedi ysgogi'r argymhellion a wnaed gennym yn ein hadroddiadau craffu ar gyfrifon ers 2015-16 ynghylch adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd eisoes yn yr

---

[77] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 15

[78] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 15

[79] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 13

[80] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, paragraff 4.13.1

Adroddiad hwn, ac mewn adroddiadau blaenorol, mae gennym bryderon ynghylch Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â chydymffurfio'n llawn â gofynion FReM ar gyfer rhan un o'r cyfrifon a'r diffyg tryloywder sy'n deillio o hyn.

**Argymhelliad 6.** Barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru ddangos esiampl o ran ei dull o adrodd ar berfformiad. Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei pherfformiad yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Hadroddiad Blynyddol. Dylai hyn adlewyrchu arfer gorau o ran cynnwys a chyflwyno'r wybodaeth hon.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn darparu diweddariad am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu'r Dangosyddion ac yn darparu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

## Cynlluniau Grant Awdurdodau Lleol

**116.** Nodwn nad yw'n ofynnol bellach i Archwilio Cymru archwilio cynlluniau grant unigol awdurdodau lleol ac fe wnaethom gwestiynu pa sicrwydd oedd yn cael ei geisio gan mai dyma'r achos erbyn hyn.

**117.** Clywsom mai'r rheswm dros y penderfyniad i ddileu'r gofyniad am archwiliad allanol gan Archwilio Cymru oedd er mwyn cael gwared ar weithdrefn ychwanegol a oedd yn cymryd llawer o amser.[81] Mae mathau eraill o sicrwydd yn eu lle sy'n bodoli nid yn unig i awdurdodau lleol ond i sefydliadau eraill sy'n derbyn Cyllid Grant Llywodraeth Cymru.[82] Gofynnir i swyddogion adran 151 gwblhau datganiad gwariant ar gyfer pob dyfarniad grant sy'n fwy na £100,000 a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol.[83]

**118.** Sicrhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ni fod systemau asesu a mesurau cadarn iawn ar waith ar gyfer prosesu pob grant trwy banel asesu grantiau. Mae dull strwythuredig o gymeradwyo cynlluniau newydd ac, ar gyfer pob cynllun, rhaid cael llythyr dyfarnu gorfodol sy'n nodi telerau ac amodau safonol gan gynnwys yr hyn y disgwylir ei gyflawni o'r cynllun hwnnw.[84]

**119.** Trafododd y Pwyllgor y mater hwn gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 8 Chwefror 2021. Clywsom:

---

[81] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 153

[82] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 154

[83] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 154

[84] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 156

> "...obviously, all of the same grant procedures are still in place, all the same grant controls are still in place, and, obviously, local authorities are high-trust, established organisations who have a responsibility, just like the Welsh Government, to ensure best use of public funds. So, I think we do have assurances across our grant funding, and our most recent local authority grant funding has been around the hardship fund, where we have controls in place there and we pay in arrears and we check the claims".[85]

**Casgliadau**

**120.** Nid ydym wedi ein sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru fesurau priodol ar waith i sicrhau bod cyllid grant i awdurdodau lleol wedi'i wario yn unol â'r telerau ac amodau cysylltiedig, a'i fod wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

**121.** Nid yw'n glir sut mae'r gofyniad adrodd blynyddol ar gyfer swyddogion Adran 151, a ddisgrifir gan yr Ysgrifennydd Parhaol, yn rhoi sicrwydd ychwanegol gan fod gofyn iddynt ardystio'r hawliadau grant unigol y mae awdurdodau lleol yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y papurau a lywiodd ei phenderfyniad i ddod â'r archwiliad allanol o hawliadau grant awdurdodau lleol i ben, ei gwerthusiad o'r peilot gydag Archwilio Cymru a'i hasesiad risg o'r penderfyniad.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y mae'n cael y sicrwydd gofynnol ynghylch cyllid grant i awdurdodau lleol yn dilyn y penderfyniad i gael gwared ar y gofyniad am archwiliad. Dylai hyn egluro sut y bydd y datganiad blynyddol gan Swyddogion Adran 151 yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'w hardystiad o hawliadau grant unigol.

## Rhan 2 – Gweinyddu'r Gwasanaeth Sifil

### Atebolrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol

**122.** Bu rhai newidiadau diweddar yng Ngwasanaeth Sifil y DU gydag Ysgrifennydd Cabinet newydd yn ei swydd. Sicrhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ni nad oedd y newid hwn yn effeithio ar ei threfniadau atebolrwydd ac, yn ei barn hi,

[85] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 200

mae Ysgrifennydd y Cabinet newydd yn deall yn dda natur datganoli, ac yn parchu'r cyfrifoldebau sydd gennym.[86]

## Pwysau Staffio

**123.** Rydym wedi clywed am y pwysau ar staff Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2019-20, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod mwy nag 80 y cant o'i staff wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd cysylltiedig â Covid-19 gyda 'chyfran sylweddol o'r staff naill ai wedi cael eu symud i rôl newydd a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 neu roedd eu rôl bresennol wedi newid yn sylweddol mewn ymateb i'r argyfwng'. Dywed:

> "Lle roedd angen gallu ac adnoddau ychwanegol, buom yn gweithio gyda chydweithwyr o gyrff hyd braich, adrannau eraill o'r llywodraeth neu asiantaethau yng Nghymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru er mwyn nodi'r gallu roedd ei angen a sicrhau cytundebau dros dro er mwyn dod â phobl i mewn yn gyflym i gefnogi gwaith hanfodol."[87]

**124.** Ar 8 Mehefin 2020, nododd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn Llywodraeth Cymru (y Grŵp ESNR) ei asesiad o'r pwysau sy'n ymwneud â capasiti:

> "…the truth is, I don't think any administration can cope with a massive pandemic, everything that that has for the economy and do everything that you want to do in Government, and do everything that you need to do, you want to do, in terms of delivering on a suite of Government commitments, and deal with Brexit, and on and on and on. So, it requires prioritisation."[88]

**125.** Yn ei Sylwadau ar y Cyfrifon, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y straen y mae Brexit a Covid-19 wedi'i roi ar adnoddau Llywodraeth Cymru gan nodi:

> "Mae nifer o'n hadroddiadau ein hunain yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi tynnu sylw at brinder staff a/neu drosiant fel ffactor dros y cynnydd araf wrth gyflawni polisïau … Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rhywfaint o waith recriwtio allanol cyfyngedig mewn ymateb i alwadau uniongyrchol neu sylweddol megis Brexit a COVID-19

[86] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 23
[87] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-2020, (Tachwedd 2020), tudalen 27
[88] Cofnod y Trafodion, 8 Mehefin 2020, paragraffau 224-225

> Ond i raddau helaeth, y mae wedi ceisio mynd i'r afael â phwysau gweithredol diweddar trwy ddefnyddio dulliau eraill, megis symud pobl yn fewnol, lwfansau dros dro ar gyfer dyletswyddau ychwanegol a secondiadau, yn ogystal â thrwy ddatblygu a hyfforddi staff mewn meysydd lle bo bylchau mewn sgiliau."[89]

**126.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod 'gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu ei Chynllun Gweithlu Strategol cyntaf erioed, ar gyfer 2020-2025, wedi ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19'[90] gan ychwanegu:

> "Yn 2019-20, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer adolygu sylfaenol o bob swydd yn y sefydliad er mwyn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o bwysau adnoddau uniongyrchol a llywio cynlluniau tymor hwy ar gyfer maint, ffurf a gallu'r sefydliad. Deallwn fod rhywfaint o ddata yr adolygiad sylfaenol wedi eu defnyddio i nodi staff â setiau sgiliau penodol ar gyfer swyddogaethau hanfodol mewn ymateb i COVID-19."[91]

**127.** Cynhaliwyd yr adolygiad sylfaenol ym mis Medi 2019 gyda'r nod o edrych yn drylwyr ar sut roedd adnoddau yn Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau a phortffolios Gweinidogol, ynghyd â'u cyfrifoldebau cyflenwi statudol.[92] Fe'i defnyddiwyd hefyd fel ffordd o nodi lleoliad staff proffesiynol ac arbenigol yn y sefydliad, a'r meysydd gwaith sy'n cyd-fynd â nhw.

**128.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fwriad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad sylfaenol pellach yn ddiweddarach yn 2020-21 a byddai diwedd y cyfnod pontio Brexit ym mis Rhagfyr hefyd yn 'dychwelyd llawer o swyddogaethau gweinyddol i Lywodraeth Cymru a bydd angen darparu adnoddau ar gyfer hyn'.[93]

**129.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai ychydig o staff o fewn Llywodraeth Cymru nad oedd wedi'u cyffwrdd gan yr angen i ymateb yn effeithiol i Covid-19[94]

---

[89] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020) tudalen 35, paragraff 77

[90] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020), tudalen 35, paragraff 75

[91] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020), tudalen 35, paragraff 75

[92] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 25

[93] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020,) tudalen 35, paragraff 76

[94] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 27

ac roedd wedi rheoli ei ymateb trwy flaenoriaethu ac adleoli pobl yn y sefydliad yn ddidostur.[95] Felly roedd adnoddau'n edrych yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd ym mis Medi y llynedd sy'n dangos nad yw cynllunio'r gweithlu byth yn statig.[96]

**130.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi rhoi tri darn mawr o waith ar waith ar strategaeth gweithlu'r dyfodol, sef:

- Gwneud y defnydd gorau o'r ystâd a'r dulliau gweithio yn arbennig o ystyried y diffyg newydd o weithio o bell;
- Symud i'r dyfodol yn y byd ar ôl yr argyfwng;
- Strategaeth ddigidol yn y dyfodol.[97]

**131.** Nodwn y potensial ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn enwedig o ystyried bod y pandemig wedi profi buddion staff yn gweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhai o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Clywsom fod gan Lywodraeth Cymru draddodiad cryf o gyfleoedd secondiad yn fewnol ac yn allanol yn Llywodraeth Cymru, gyda rhai ar secondiaid yn gweithio ar gyflog ac amodau eu rhiant-sefydliadau, i helpu i annog pobl i symud o gwmpas.[98]

**132.** Rydym yn croesawu'r cyfleoedd y mae secondiadau yn eu cynnig i sefydliad o ran gwella gallu meddwl polisi a datrys problemau a hoffem weld secondiadau yn cael eu hymgorffori yn ymagwedd Llywodraeth Cymru ar ôl y pandemig.[99]

**133.** Clywsom y bydd gweithio o bell yn helpu i wreiddio diwylliant o secondiadau oherwydd ei bod yn haws o lawer i bobl weithio o wahanol leoedd heb yr angen i symud lleoliad yn gorfforol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "…more and more, people are looking at wider opportunities than what might have been a traditional career path, and I think all of that will help embed the kind of permeability from which we benefit greatly, and which the First Minister is very keen to encourage".[100]

---

[95] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 27
[96] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 27
[97] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 28
[98] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 86
[99] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 93
[100] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 93

**134.** Nodwn wrth ymateb i alwadau uniongyrchol neu sylweddol fel Brexit a Covid-19, fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r pwysau hyn i raddau helaeth trwy fecanweithiau, megis adleoli staff yn fewnol, cyflwyno lwfansau dros dro ar gyfer dyletswyddau a secondiadau ychwanegol yn ogystal â thrwy ddatblygu a hyfforddiant mewn meysydd lle mae bylchau sgiliau.

**135.** Er ein bod yn croesawu'r dulliau hyn, rydym yn pryderu, fel y nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Sylwadau ar y Cyfrifon, bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru wedi nodi gwendidau gyda rhai o'r mentrau rheoli gweithlu hyn, gan roi barnau 'sicrwydd cyfyngedig' mewn adroddiadau ar secondiadau a defnyddio gweithwyr asiantaeth yn 2019-20 ac yn gynharach ym mis Awst 2018 yn dilyn Lwfansau Dyletswydd Dros Dro.[101]

### Casgliad

**136.** Mae Sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi bod effaith pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y cynnydd gyda gwaith a gafodd ei gynllunio ym maes Cynllunio a Rheoli'r Gweithlu Llywodraeth Cymru. Dywed ei fod yn disgwyl adrodd yn fwy manwl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2021 ar brif faterion y gweithlu sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'i chynlluniau i fynd i'r afael â nhw. Mae'n nodi ei fod hefyd wedi cyffwrdd â materion cysylltiedig trwy ei waith yn edrych ar baratoadau ar gyfer diwedd pontio Brexit.[102] Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hyn.

**Argymhelliad 10.** Nodwn y gwendidau a nodwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mentrau rheoli'r gweithlu. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymdriniwyd â'r gwendidau hyn.

## Y Gymraeg

**137.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2018-19, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn hapus i rannu papurau yn ymwneud â datblygu defnydd mewnol Llywodraeth Cymru o Strategaeth y Gymraeg.[103]

[101] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 35, paragraff 77

[102] Archwilio Cymru, Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru, (Tachwedd 2020), tudalen 34, paragraff 72

[103] Cofnod y Trafodion, 11 Tachwedd 2019, paragraff 197

**138.** Ar 28 Gorffennaf 2020, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor ynghylch lansio strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, "Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd". Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Mae strategaeth ffurfiol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol yn gosod her i ni ddod yn sefydliad dwyieithog yn raddol dros y deng mlynedd ar hugain nesaf. Ein nod yw y dylai Llywodraeth Cymru ddod yn wirioneddol ddwyieithog erbyn 2050."[104]

**139.** Ychwanegodd:

> "Nod ar gyfer yr hir-dymor sydd yn y strategaeth. Ond byddwn yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar y pum mlynedd cyntaf, 2020-2025, a dod yn sefydliad sydd yn dangos esiampl yn ein defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â sefydliadau tebyg yng Nghymru."[105]

**140.** Wrth ddiffinio beth yw dangos esiampl, clywsom mai amcanestyniad allweddol Llywodraeth Cymru yw gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ar lefel 3 neu'n uwch. Mae'r lefelau'n dechrau gyda Chymraeg cwrteisi (lefel 1). Y nod yw cynyddu'r rhai sy'n siarad Cymraeg Lefel 3 neu'n uwch o 22 y cant i 24 y cant a bod Llywodraeth Cymru yn arwain y sector cyhoeddus trwy esiampl.[106]

**141.** Nododd y Pwyllgor fod strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ei defnydd mewnol o'r Gymraeg, 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd' yn nodi:

> "Erbyn hyn, nid yw'r ymadrodd "nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol", a ddefnyddir wrth hysbysebu swyddi, yn adlewyrchu gofynion nac ethos y sefydliad. Fel gofyn sylfaenol ar gyfer pob swydd, dylid defnyddio yn ei le eiriad sy'n pwysleisio bod sgiliau Cymraeg yn ased i Lywodraeth Cymru".[107]

**142.** O ystyried yr ymrwymiad hwn, roeddem yn pryderu o weld hysbyseb swydd ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi mewn camgymeriad heb fod Cymraeg ar lefel cwrteisi yn ofyniad a bod hynny wedi'i gywiro[108]. Er i'r gwall

---

[104] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 28 Gorffennaf 2020

[105] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 28 Gorffennaf 2020

[106] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 37

[107] 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd', Llywodraeth Cymru, Cam Gweithredu 6

[108] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 51

gael ei gywiro, roedd yn tanseilio ein hyder yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r maes hwn yn barhaus.

**143.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd Cymraeg lefel cwrteisi yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gynefino ar gyfer yr holl staff newydd a'i bod yn ceisio gwneud y canlynol:

> "generate enthusiasm for the language rather than create any anxiety or a sense that can't come here if you're not a fluent Welsh speaker. I want to encourage good people to come here and encourage them to learn Welsh".[109]

### Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

**144.** Ar 23 Tachwedd 2020, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol am waith a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog cyn iddo ddechrau yn ei swydd [13 Rhagfyr 2018] yn ymwneud ag 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'. Roedd hyn yn ystyried sut y gellid cryfhau gwahanol rolau'r gwasanaeth sifil.

**145.** Gofynnwyd iddi pwy ysgrifennodd y papurau, beth oedd statws y gwaith ac a allai'r Ysgrifennydd Parhaol rannu'r cynnwys. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol wybodaeth i ni ar sail gyfyngedig. Nododd fod ymrwymiad personol cryf iawn gan y Prif Weinidog i ddatblygu Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.[110]

## Rhan 3 – Llywodraethu

### Papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

**146.** Gan gyfeirio'n ôl at ei gohebiaeth â ni ym mis Hydref 2020[111], gwnaethom nodi pryderon yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai cyhoeddi papurau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC) yn gwanhau ansawdd ei drafodaethau. Gwnaethom hefyd nodi'r gwahaniaeth rhwng dull Llywodraeth Cymru o wneud hyn o'i gymharu â phwyllgorau archwilio'r bwrdd iechyd lleol y mae'n rhaid iddynt gyhoeddi papurau a chofnodion eu cyfarfodydd.

**147.** Wrth egluro dull Llywodraeth Cymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd yn arfer safonol i adrannau Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau

[109] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 62
[110] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 64
[111] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Hydref 2020

datganoledig, na chyrff ARAC gyhoeddi eu papurau.[112] Mae canllawiau penodol sy'n ymwneud â chyrff y GIG yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl bwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus a chyhoeddi eu papurau ar eu gwefannau cyn cyfarfodydd. Yr eithriad yw unrhyw wybodaeth sensitif neu gyfrinachol.

**148.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn dilyn llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EM ac felly arfer gorau ar gyfer adrannau Llywodraeth Ganolog. Dywedodd:

> "…ARAC membership has to be independent and objective, and that Members should be able to apply real open and constructive challenge to the works of an organisation and to be able to scrutinise all those issues in a very open and frank way. And, obviously, that means that, very often, sensitive and confidential areas of operational activity are discussed."[113]

**149.** Mae'r cofnodion ar gael i archwilwyr mewnol ac allanol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilio Cymru, sy'n cael eu gwahodd i bob cyfarfod ARAC ac yn derbyn yr holl bapurau.

**Casgliad**

**150.** Gwnaethom drafod rhesymau Llywodraeth Cymru dros beidio â chadw'n llawn at Argymhelliad 1 ein hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2018-19. Rydym yn gwerthfawrogi y gall cofnodion cyfarfodydd ARAC Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth sensitif ac ystyrir nad yw'n briodol i'w cyhoeddi'n llawn. Rydym o'r farn y gallai cofnodion, gydag golygu priodol, gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru, ynghyd â chrynodeb priodol o faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd, yn cael eu cyhoeddi fan lleiaf.

## Cymorth Swyddi Cymru

**151.** Ar 30 Ionawr 2020, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig am gymorth cyflogadwyedd yng Nghymru a oedd yn nodi:

---

[112] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 106

[113] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 107

> "Yn dilyn materion technegol gydag ymarfer caffael diweddar, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r broses gymedroli yn arwain at sgoriau tendr terfynol, bu'n rhaid i ni ddiwygio ein dull gweithredu ac ni fydd rhaglen Cymorth Gwaith Cymru yn mynd rhagddi bellach fel y bwriadwyd yn wreiddiol."[114]

**152.** Ar 8 Hydref 2020, darparodd Gweinidog yr Economi, Seilwaith a Gogledd Cymru ddiweddariad yn nodi bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi comisiynu adolygiad o'r 'anawsterau' a gafwyd gyda'r gwaith caffael, y gwnaeth eu canfyddiadau nifer o argymhellion i gryfhau prosesau mewnol, a bod swyddogion yn bwrw ymlaen â'r rhain.[115]

**153.** Fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i Gaffael Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi diweddariad inni[116] ar y broses gaffael ar gyfer Cymorth Swyddi Cymru. Fe'n hysbyswyd hefyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ei fod yn gobeithio cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad yn llawn ac os na fyddai, byddai'n ystyried ffyrdd i rannu'r canfyddiadau hyn â'r Pwyllgor.[117]

**154.** Mae'r Cyfrifon yn nodi y cafodd y rhaglen Cymorth Swyddi Cymru:

> "…ei chwtogi cyn dyfarnu contract ffurfiol o ganlyniad i gyngor cyfreithiol a oedd yn awgrymu nad oedd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r penderfyniad terfynol yn ddigon cryf i oroesi her gyfreithiol. Nododd cyngor Cwnsler y Frenhines mai'r cam gweithredu hwn oedd yr opsiwn gorau o'r gwaethaf."[118]

**155.** Mae'r Cyfrifon hefyd yn nodi'r adolygiad annibynnol "a oedd yn cadarnhau, er bod asesu ceisiadau yn broses oddrychol, nad oedd lefel y manylder yn y naratif i gefnogi'r penderfyniad terfynol yn ddigonol", gan ychwanegu'n ddiweddarach:

> "Barnodd y Cwnsler nad oedd gan brosesau caffael safonol Llywodraeth Cymru ddigon o gadernid i amddiffyn y math hwn o her Rydym wedi dangos tystiolaeth o welliannau i sicrhau bod y risg o her lwyddiannus

---

[114] Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth Cyflogadwyedd yng Nghymru, 30 Ionawr 2020

[115] Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Gaffael Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru – Diweddariad, 8 Hydref 2020

[116] Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, 7 Medi 2020

[117] Cofnod y Trafodion, 14 Medi 2020, paragraff 154

[118] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 65

> yn cael ei lliniaru yn y dyfodol ond bod angen gwneud mwy i wella'r prosesau, yn enwedig canllawiau gwell ar lefel y naratif sydd ei angen i gefnogi penderfyniadau terfynol, o fewn timau caffael a pholisi ar draws Llywodraeth Cymru."[119]

**156.** Er nad yw'n gysylltiedig yn benodol â Chymorth Swyddi Cymru, rydym wedi ysgrifennu o'r blaen at yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch pwysigrwydd dogfennu penderfyniadau. Mewn gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, gwnaethom bwysleisio pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cofnodi dadansoddiad ysgrifenedig llawn o'i phenderfyniadau.[120] Ei hateb oedd:

> "Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at fy holl swyddogion cyfrifyddu ychwanegol i bwysleisio pwysigrwydd cynnal a chadw cofnodion o'r anghenion sy'n cael eu diwallu, y rhesymau dros wneud penderfyniadau ac unrhyw risgiau posibl. Yn ogystal â hynny, mae unrhyw ganllawiau atodol a roddwn i staff mewn perthynas â gwariant i fynd i'r afael â COVID-19 hefyd yn cael eu defnyddio i bwysleisio'r angen hwn i gadw cofnodion."[121]

**157.** Yn ein cyfarfod ar 8 Chwefror 2021, gwnaethom ofyn i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Cyfoeth Naturiol a Sgiliau am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad adolygiad Cymorth Swyddi Cymru. Clywsom fod gwaith yn mynd rhagddo gan dîm Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru i groeswirio'r adroddiad terfynol i sicrhau ei fod yn hollol deg i'r holl bartïon dan sylw, yn enwedig o ystyried y lefel uchel o sensitifrwydd o'i gwmpas.[122]

**158.** Gofynnwyd a yw canlyniadau'r adolygiad yn debygol o wella prosesau caffael y Llywodraeth a gwella'r naratif sy'n ofynnol i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud.

**159.** Clywsom:

> "At its heart, I think the issue with the JSW procurement was around how things were recorded, in particular how qualitative assessments of a panel were recorded, the degree to which those findings were set out

[119] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 65
[120] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Ebrill 2020
[121] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 28 Ebrill 2020
[122] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 110

> and how they were set out, and that is a key area for us to learn from for the future. That would be my main takeaway from that work".

**160.** Cawsom ein sicrhau y byddai copi o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.[123]

### Casgliad

**161.** Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn ystyried canlyniad yr adolygiad o Gymorth Swyddi Cymru o ystyried diddordeb a phryder tymor hir y Pwyllgor hwn ynghylch dogfennu penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

## Twyll

**162.** Ym mis Gorffennaf 2019, trefnodd y Pwyllgor ddigwyddiad rhanddeiliaid i drafod a rhannu arfer da ar Wrth-Dwyll yn y Sector Cyhoeddus. Gwnaed dau argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn dilyn y digwyddiad hwn, sef:

- Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried a oes posibilrwydd a chwmpas ar gyfer cefnogi tîm gwrth-dwyll cenedlaethol i weithio ledled Cymru i sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn ymgymryd ag o leiaf lefel sylfaenol o waith gwrth-dwyll ym mhob ardal awdurdod lleol.
- Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau iddi ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a chanllawiau o ansawdd gwell ar rannu gwybodaeth, i helpu i gryfhau a gwella effaith gweithgareddau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.[124]

**163.** Derbyniodd yr Ysgrifennydd Parhaol y ddau argymhelliad a nododd y byddai swyddogion yn trafod cynnwys eitem ar yr agenda ar gyfer y Cyngor Partneriaeth a'i Is-bwyllgor Cyllid.[125] Cadarnhaodd hefyd ei chefnogaeth i 'gynyddu'r ddealltwriaeth am dwyll ac i weithredu technegau arferion gorau yn gyson ar draws Sector Cyhoeddus Cymru'[126], gan nodi gwaith Fforwm Twyll Cymru. Esboniodd:

---

[123] Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2021, paragraff 112
[124] Llythyr at yr Ysgrifennydd Parhaol, 27 Awst 2019
[125] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 24 Medi 2019
[126] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 24 Medi 2019

> "Mae cyflwyno Deddf yr Economi Ddigidol yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru a rhai cyrff cyhoeddus cofrestredig eraill yng Nghymru rannu data gyda'i gilydd, yn unol â'r drefn, er mwyn adnabod achosion posib o dwyll. Mae swyddogion yn gweithio i sefydlu trefn lywodraethu briodol ar gyfer datblygu'r defnydd o'r pwerau hynny yng Nghymru, a'r nod yw sefydlu panel erbyn diwedd y flwyddyn ariannol i ystyried defnyddiau posib y pwerau."[127]

**164.** Ym mis Gorffennaf 2020, yn ei adroddiad, 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru', nododd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "…mae rhai uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus yn amheus ynghylch y lefelau o dwyll sydd yn eu sefydliadau. O ganlyniad, maent yn gyndyn o fuddsoddi mewn trefniadau atal twyll ac maent yn rhoi blaenoriaeth isel i'r gwaith o ymchwilio i achosion o dwyll posibl y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn tynnu eu sylw atynt."[128]

**165.** Gwnaed yr argymhelliad a ganlyn yn yr adroddiad:

> "Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny'n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau'n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll."[129]

**166.** Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad, *Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20*, a nododd:

> "Mae pandemig COVID-19 wedi achosi heriau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus wrth i gyrff geisio darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau ar adeg eithriadol o anodd. Ers dechrau'r pandemig, mae'r risg o dwyll wedi cynyddu wrth i sefydliadau ddod o dan bwysau ac wrth i reolaethau a threfniadau llywodraethu newid."[130]

---

[127] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 24 Medi 2019

[128] Adroddiad Archwilio Cymru, "'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, 30 Gorffennaf 2020

[129] Adroddiad Archwilio Cymru, "'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, 30 Gorffennaf 2020, Argymhelliad 1, tudalen 8

[130] Adroddiad Archwilio Cymru, Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20, tudalen 2

**167.** Wrth ein diweddaru ar sut y mae wedi ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth o ran gwrth-dwyll, clywsom mai'r Pennaeth Gwrth-Dwyll yn Llywodraeth Cymru yw dirprwy gadeirydd fforwm twyll Cymru gyfan.[131]

**168.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddangos esiampl yn ei dull o fynd i'r afael â thwyll ac rydym yn croesawu'r dull a gymerir gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o risgiau twyll yn rheolaidd yn ei chysylltiad â chyrff sector cyhoeddus yng Nghymru. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â thîm gwrth-dwyll Swyddfa Gabinet y DU i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, gan rannu gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd. Mae'n gwneud hyn trwy ledaenu'r gwersi hynny a nodi bygythiadau twyll posibl ledled y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan ym menter twyll genedlaethol y DU i sicrhau ei bod yn cael budd o'r wybodaeth a'r syniadau arfer gorau a ddarperir.[132]

**169.** Gan edrych at y dyfodol, ac yn benodol y risg uwch o dwyll a achosir gan bandemig Covid-19, bydd heriau newydd i Lywodraeth Cymru o ran sicrhau bod ganddi fecanweithiau llywodraethu a'r adnoddau ar waith i'w gwrthsefyll. Rydym yn nodi sylwadau'r Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn disgwyl y bydd cryn dipyn o waith ar hyn y flwyddyn nesaf pan fydd holl gyllid Covid-19 y DU yn cael eu paru.[133]

**170.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Gabinet y DU o ran twyll posib sy'n gysylltiedig â Covid-19 ac mae ei Phennaeth Gwrth-Dwyll wedi sefydlu grŵp sicrwydd gwrth-dwyll ôl-Covid-19, sy'n dwyn ynghylch archwilio mewnol a'r ganolfan ragoriaeth grantiau i edrych ar yr holl gynlluniau grant sy'n gysylltiedig â Covid-19 a ariennir gan Lywodraeth Cymru.[134]

### Casgliadau

**171.** Nodwn y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ei roi ar wrth-dwyll a'i fod yn fater sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth o ystyried y cynnydd yn y potensial i dwyll ddigwydd. Bydd hwn yn llinyn hanfodol o waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y chweched Senedd ar ôl Covid-19.

---

[131] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 140

[132] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 141

[133] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 142

[134] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 142

**172.** Credwn y bydd mecanweithiau gwrth-dwyll yn bwysicach fyth yng nghyfnod presennol y pandemig ac yn y cyfnod adferiad. Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn cael manylion am y gwaith sydd ar y gweill i baru cyllid Covid-19 ac unrhyw allbynnau dilynol.

## Cyrff Hyd Braich

**173.** Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd, yn ei Chyfrifon ar gyfer 2019-20, y bydd yn datblygu rhaglen lawn o adolygiadau ar gyfer cyrff hyd braich i'w cynnal ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.[135]

**174.** Clywsom yn flaenorol y byddai'r broses adolygu deilwredig yn gymesur â maint y Corff Hyd Braich a bydd yn pennu ei werth am arian a'i effeithlonrwydd. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol am ei barn ynghylch a gyflawnodd yr adolygiad teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yr amcanion hynny.

**175.** Clywsom fod yr adolygiad yn llwyddiannus ac arweiniodd at ddatblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad. Un o'r llwyddiannau amlwg oedd y dull cydweithredol o gynnal yr adolygiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol[136].

**176.** O ran pa mor ddefnyddiol oedd yr adolygiad wrth nodi'r materion mwyaf dybryd a oedd yn wynebu'r Llyfrgell Genedlaethol a rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru, dywedwyd wrthym ei fod yn tynnu sylw at yr angen am sgiliau yn y dyfodol nad oeddent wedi'u nodi o'r blaen. Nododd hefyd nad oedd y Llyfrgell Genedlaethol wedi blaenoriaethu gofynion eu gweithgareddau masnachol wrth symud ymlaen.

**177.** Roeddem yn cytuno â chanfyddiadau'r adolygiad ac yn cydnabod y bygythiad i hyfywedd ariannol y Llyfrgell Genedlaethol yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau ar adnoddau cyhoeddus. Mae'r rhain i gyd yn bryderon a nodwyd gennym yn ein gwaith craffu blaenorol ar gyfrifon y Llyfrgell Genedlaethol yn 2016-17.

**178.** Mater i Weinidogion ei ystyried yw ariannu'r Llyfrgell Genedlaethol yn y dyfodol ond mae'r adolygiad yn offeryn defnyddiol wrth adrodd yn wrthrychol ar yr heriau sy'n wynebu'r Llyfrgell a bydd o gymorth i Weinidogion wrth iddynt ystyried y mater. Nodwn y datganiad diweddar gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant,

[135] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, (Tachwedd 2020), tudalen 52
[136] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 161

Chwaraeon a Thwristiaeth ar *Gyllid ar gyfer ein cyrff diwylliannol cenedlaethol*, a oedd yn cyhoeddi pecyn cyllido newydd ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru[137].

**179.** Mae pandemig Covid-19 wedi gohirio'r rhaglen arfaethedig o adolygiadau o gyrff hyd braich ond y bwriad yw cyflwyno'r rhaglen ar ddull seiliedig ar risg yn nhymor newydd y Senedd. Bydd y dull hwn ar sail risg yn seiliedig ar faint y sefydliad, y materion sy'n cael eu hwynebu a'r ffordd y gall newidiadau yn y dyfodol effeithio arnynt[138].

**180.** Rydym yn nodi o'n gwaith craffu blaenorol dull Llywodraeth Cymru o reoli eu Cyrff Hyd Braich ers cael gwared ar y weithdrefn galw i mewn. Rydym wedi nodi yn flaenorol ein pryderon am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn mewn atebolrwydd.[139] Rydym wedi ymrwymo i fonitro pa mor effeithiol yw Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru wrth wella'r ymwneud a'r trefniadau llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyrff Hyd Braich drwy ddilyn hynt y materion hyn yn ein gwaith craffu yn y dyfodol.

**181.** Nodwn o'n gwaith craffu ar Gyfrifon 2019-20 rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus wrth gysylltu â chyrff cyhoeddus Cymru ar faterion cyffredin yn benodol mewn perthynas â materion cysylltiedig â Covid-19.[140] Er enghraifft, mae'r Uned wedi chwarae rôl wrth rannu profiadau ar weithio o bell, twyll a staff ar ffyrlo.

**182.** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi dweud wrthym yn y gorffennol y byddai'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn paratoi adroddiad gwersi a ddysgwyd, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer diwedd mis Rhagfyr 2019. Dywedodd y byddai hyn yn ei chynorthwyo i lunio barn ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn, ac y byddai copi o'r adroddiad a'i chasgliadau yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.[141]

### Casgliadau

**183.** Rydym yn deall bod pandemig Covid-19 wedi gohirio rhaglen arfaethedig Llywodraeth Cymru o adolygiadau o Gyrff Hyd Braich. Croesawn y bwriad o gyflwyno'r adolygiadau, gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg, yn y Chweched Senedd.

---

[137] Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer ein cyrff diwylliannol cenedlaethol, 3 Chwefror 2021

[138] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 172

[139] Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, paragraff 117

[140] Cofnod y Trafodion, 7 Rhagfyr 2020, paragraff 174

[141] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 27 Medi 2019

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus werthusiad o'r adolygiad peilot o'r Llyfrgell Genedlaethol a sylwadau ar unrhyw wersi a ddysgwyd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi amserlenni ar gyfer adolygiadau gwerthuso Cyrff Hyd Braich eraill a manylion am sut y defnyddiwyd dull seiliedig ar risg i bennu trefn blaenoriaeth yr adolygiadau hyn.

**184.** Gan nodi effaith bosibl y pandemig, nid ydym eto wedi gweld copi o'r gwersi a ddysgwyd a manylion casgliadau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â'r trefniadau newydd ers dileu'r weithdrefn galw i mewn.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr amserlenni ar gyfer gwerthuso'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'i fod yn derbyn copi o unrhyw adroddiad a chasgliadau.